## BRO MORGANNWG

# RHYBUDD O ETHOLIAD

### ETHOL CYNGHORWYR CYMUNED

### CYNGOR CYMUNED DINAS POWYS – WARD TWYN

1. Rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau heb fod yn hwyrach na **4pm Ddydd Mercher 6 Mawrth 2024**
2. Gellir cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn y Swyddfeydd Dinesig rhwng **10yp** a **4yp** ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno'n electronig isod.
3. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau naill ai yn swyddfeydd Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU neu'n electronig drwy electoralregistration@valeofglamorgan.gov.uk o **28 Chwefror 2024** tan **6 Mawrth 2024.**
4. Os ymleddir unrhyw etholiad, caiff y bleidlais ei chynnal **Ddydd Iau 4 Ebrill 2024**.
5. Rhaid i geisiadau am gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **12 canol nos ddydd Gwener 15 Mawrth 2024**. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.
6. Rhaid i geisiadau, diwygiadau neu gansladau pleidleisiau post gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri CF63 4RU erbyn **5yp ddydd Llun 18 Mawrth 2024.**
7. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU erbyn **5yp ddydd Llun 25 Mawrth 2024**.
8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU erbyn **5yp ddydd Iau 4 Ebrill 2024**.

**Datganiad cyflwyno'n electronig**

9. Rhaid cyflwyno papurau enwebu a gyflwynir yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.
10. Y cyfeiriad e-bost i gyflwyno enwebiadau yw nominations@valeofglamorgan.gov.uk. Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost hwn ar gyfer unrhyw ymholiadau a/neu wiriadau anffurfiol. Dylai'r pwnc gynnwys enw'r ymgeisydd a'r blaid gysylltiedig (os yw'n berthnasol).
11. Byddem yn eich cynghori'n gryf i wirio bod eich papurau enwebu wedi ein cyrraedd yn ddiogel drwy ffonio 01446 709304.
12. Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y papurau enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiad cau gofynnol.
13. Nid yw derbynneb darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am ei benderfyniad ynghylch a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.
14. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno enwebiadau'n electronig, cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol ar 01446 709304.

**ROB THOMAS**
**SWYDDOG CANLYNIADAU**
**DYDDIEDIG: 27 CHWEFROR 2024**

Printed & Published by the Returning Officer, Civic Offices, Holton Road, Barry, Vale of Glamorgan, CF63 4RU
Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU